

CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL



Cofnodion (DRAFFT) cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhalwyd drwy Zoom nos Lun, 7 o Chwefror 2022 am 7:00yh

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Heather Williams (Cadeirydd), Ken Hawkins, Robert Owen-Ellis, Ethan Jones, Ifan Wyn a Menna Jones

183. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cynghorwyr Jabez Oakes ac Ian Lewney.

184. DATGAN BUDDIANNAU

- Datganodd y Cyng Ethan Jones fuddiant personol yn eitem 6 (cofnod 188) ar y ceisiadau canlynol: 02/2021/1255 Meriden Bryn Goodman a 02/2022/0029 The Nook Bryn Goodman
- Datganodd y Cyng Bob Owen-Ellis fuddiant personol yn eitem 6 (cofnod 188) ar gais: 02/2021/0995 Clwb Rygbi Rhuthun Lôn Fawr Rhuthun, fel cyn-gapten a noddwr presennol Clwb Rygbi Rhuthun, yn ogystal roedd ei fab yn byw gerllaw'r Clwb

185. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 o Ionawr 2022 yn gywir.

PENDERFYNWYD: bod cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd ar 10 o Ionawr 2022 yn cael eu cadarnhau.

186. MATERION YN CODI

Dim.

187. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Roedd Clerc y Dref wedi dosbarthu penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych gyda'r agenda.

PENDERFYNWYD: nodwyd y penderfyniadau cynllunio diweddar a benderfynwyd gan Gyngor Sir Dinbych.

188. CEISIADAU CYNLLUNIO

Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn am ganiatâd cynllunio a gyflwynwyd gan Gyngor Sir Ddinbych ar gyfer sylwadau.

PENDERFYNWYD: bod ymateb y Pwyllgor i'r ceisiadau fel a ganlyn:

PENDERFYNWYD: nad oedd gwrthwynebiad i'r cais a ganlyn:

02/2021/1255 Meriden Bryn Goodman Rhuthun

Dymchwel estyniad blaen unllawr presennol a chodi estyniad blaen deulawr.

PENDERFYNWYD: bod dim gwrthwynebiad ond i nodi sylwadau ar y ceisiadau a ganlyn:

02/2022/0029 The Nook Bryn Goodman Rhuthun

Gwaith ar Goeden Dderw (T1) yn amodol ar Orchymyn Cadw Coed Cyngor Sir Ddinbych Rhif 3

(2020).

Dim gwrthwynebiad yn amodol ar arolwg boddhaol.

02/2022/0036 The Nook Bryn Goodman Rhuthun

Dileu Pinwydden yr Alban (T5) sy'n destun Gorchymyn Cadw Coed Cyngor Sir Ddinbych Rhif 3 (2020).

Dim gwrthwynebiad ar yr amod bod meddyg coed yn cynnal arolwg ac yn darparu adroddiad i gadarnhau'r cyfiawnhad dros dynnu'r goeden.

02/2021/0995 Clwb Rygbi Rhuthun Lôn Fawr Rhuthun

Codi estyniad i'r clwb rygbi gan gynnwys newidiadau i adeilad presennol y clwb, creu man eistedd, mynediad i gerddwyr, tirlunio a gwaith cysylltiedig.

Dim gwrthwynebiad i'r cais ond yn gofyn am blannu coeden arall o'r un rhywogaeth yn lle cael gwared ar y goeden iach.

02/2022/0086 Tir yn (Rhan o ardd) 149 Stryd Mwrog, Rhuthun

Datblygu 0.09ha o dir trwy godi annedd a garej ar wahân (cais amlinellol gan gynnwys mynediad)

Dim gwrthwynebiad cyn belled na chodwyd unrhyw bryderon traffig gan yr awdurdod traffig.

PENDERFYNWYD: *gohirio ystyried y cais canlynol*

02/2022/0033 Hen Lawnt Fowlio a Chwrt Tennis y tu ôl i The Bungalow Stryd y Castell, Rhuthun

Codi annedd ar wahân a gwaith cysylltiedig

Cytunodd y Pwyllgor i ohirio ystyried y cais tan y cyfarfod nesaf. Y Clerc i gysylltu â'r Adran Gynllunio i geisio estyniad, os bernir bod angen hynny.

189 CYFYNGIADAU AROS ARFAETHEDIG AR A525 Ffordd LLANFAIR AC ERW GOCH.

Bu i'r Pwyllgor ystyried ei ymateb i'r cynigion gan Gyngor Sir Ddinbych yn ymwneud â'r A525 Ffordd Llanfair ac Erw Goch sef i gyflwyno:

(i) Dim aros ar unrhyw adeg ar yr A525 Ffordd Llanfair ac ar Erw Goch

(ii) Dim aros rhwng 8.00y.b a 6.00y.h ar ran llai o'r A525 Ffordd Llanfair, Rhuthun.

Mynegodd yr aelodau eu barn ar y cynig ac yn dilyn trafodaeth cytunwyd i gefnogi cyflwyno'r cynigion **yn amodol** ar fesurau i ganiatáu parcio i drigolion y bydd y cynigion yn effeithio ar eu heiddo.

PENDERFYNWYD: *ymateb i Gyngor Sir Ddinbych i gefnogi cyflwyno'r cynigion yn amodol ar fesurau i ganiatáu ar gyfer parcio gan drigolion y mae'r cynigion yn effeithio ar eu heiddo.*

190. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai nos Lun, 7 o Fawrth am 7.00pm y cynhelir y cyfarfod nesaf.*